**<u>Cofnodion cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Dolau</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | Dydd Iau 10 Hydref 2024 |
| **Amser** | 13:30 |
| **Math** | Wyneb yn wyneb |

| **Presenoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Sarah Nicholls | SN | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Richard Bowen | RB | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Bethan Gannon | BG | Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Nia Pugh | NP | Pennaeth dros dro Ysgol Gynradd Dolau |
| 8 disgybl | Dd/B | Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Dolau |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Cyflwynodd y swyddogion a oedd yn bresennol eu hunain i'r Cyngor Ysgol a diolchwyd iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cyflwynodd y Cyngor Ysgol eu hunain.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn i'r Cyngor Ysgol, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Ymgynghori.

3. **Cwestiynau'r Cyngor Ysgol**

   Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Gynradd Dolau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae’r cwestiynau a’r sylwadau a wnaed wedi’u crynhoi yn y tabl sy’n dilyn ynghyd â’u hymateb, lle bo angen.

| **Nifer** | **Cwestiynau** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| 1. | A fydd gan yr iard marciau llinell chwaraeon arno? | Bydd, bydd marciau chwaraeon ar yr iard. |
| 2. | A oes modd i ni gynnal ein sesiynau hyfforddi pêl-droed ar y cae chwaraeon? | Wrth gwrs. Mae modd rhannu'r cyfleusterau chwaraeon rhwng y ddwy ysgol a hefyd gyda'r gymuned. Bydd llwybr troed rhwng yr ysgolion i ganiatáu mynediad hawdd. |
| 4. | A yw ein timau chwaraeon yn mynd i fod yr un peth neu a fyddan nhw'n wahanol oherwydd byddwn ni mewn ysgolion gwahanol? | Mater i staff yr ysgol fydd hyn. Mae llawer o opsiynau ar gael o ganlyniad i'r gallu i rannu cyfleusterau chwaraeon. |
| 5. | Rydych chi'n gobeithio am ragor o siaradwyr Cymraeg, ond bydd tynnu'r | Mae holl ysgolion Rhondda Cynon Taf yn edrych ar bwysigrwydd defnyddio'r |

| | | |
|---|---|---|
| | disgyblion cyfrwng Cymraeg o Ysgol Gynradd Dolau yn golygu llai o gyfle i'r disgyblion cyfrwng Saesneg siarad Cymraeg (amser chwarae neu wrth ymarfer gyda ffrindiau). | Gymraeg, hyd yn oed ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd cyfleoedd i ddisgyblion cyfrwng Saesneg barhau i ymarfer a defnyddio’r Gymraeg, ond rydyn ni'n cydnabod bod hwn yn bwynt da i’w godi. |
| 6. | A gawn ni wersi yn yr ysgol arall os defnyddiwn ni'r llwybr troed newydd? | Mater i'r Penaethiaid fydd pryd fydd y ddwy ysgol yn dod at ei gilydd neu'n defnyddio cyfleusterau ei gilydd. |
| 7. | Beth fydd y wisg ysgol ar gyfer yr ysgol newydd. | Dydyn ni ddim wedi penderfynu ar hyn eto. Staff ysgol a disgyblion sy'n gwneud y penderfyniad fel arfer. Rydyn ni hyd yn oed wedi cael disgyblion i ddylunio eu bathodyn ysgol yn y gorffennol. |
| 8. | Mae hyn yn syniad da oherwydd byddai ysgol cyfrwng Cymraeg yn lle gwell i siarad rhagor o Gymraeg. | Mae hwn yn bwynt pwysig. Bwriad y cynnig yw cynyddu nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg. |
| 9. | A fydd unrhyw wersi Saesneg yn yr ysgol newydd? | Bydd. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd yn cael gwersi Saesneg fel bod modd i ddisgyblion wella eu sgiliau yn y ddwy iaith. |
| 10. | Byddai'r cynnig yma'n golygu newidiadau i Ysgol Gynradd Dolau. A fydd yn rhaid i ni newid ein hanthem ysgol oherwydd ei bod yn Gymraeg? | Nid yw'r cynnig yn golygu na all fod dim Cymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau. Wrth gwrs, gallai Ysgol Gynradd Dolau dal i gael anthem ysgol Gymraeg pe bai'r ysgol yn dymuno. |
| 11. | Ydych chi wedi ystyried effaith y cynnig ar draffig lleol? | Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnal asesiadau sy'n canolbwyntio ar fynediad i'r gymuned a'r llwybrau diogel y gallai disgyblion eu cymryd i gyrraedd yr ysgol (naill ai drwy gerdded neu feicio). |
| 12. | Faint o ddosbarthiadau ydych chi'n bwriadu eu cael yn yr ysgol newydd? | Bydd 16 dosbarth yn yr ysgol newydd (ynghyd â dau ddosbarth meithrin). |
| 13. | A fydd pwll nofio yn yr ysgol newydd? | Na fydd. |
| 14. | Mae hyn yn syniad da oherwydd bydd mwy o ddisgyblion yn golygu y mae modd i ni wneud ffrindiau newydd. | Wedi'i nodi. |
| 15. | A fyddai disgyblion cyfrwng Cymraeg yn gorfod mynd i’r ysgol newydd, neu a fyddai modd iddyn nhw aros yn Ysgol Gynradd Dolau? | Mae'r cynnig yn gofyn am farn pobl ar hyn o bryd. Bydd gan rieni/gwarcheidwaid a disgyblion ddewis i ba ysgol i fynd iddi, ond byddai'r ysgol newydd yn un cyfrwng Cymraeg yn unig, a byddai Ysgol Gynradd Dolau yn newid i fod yn un cyfrwng Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| 16. | A fydd y Cyngor yn plannu mwy o goed os byddwch chi'n cael gwared ar rai i adeiladu'r ysgol newydd? | Bydd, bydd llawer o blannu ar y safle newydd. Bydd y contractwr adeiladu hefyd yn gwneud llawer ar gyfer yr amgylchedd y tu allan i'r safle. |
| 17. | Os oes gan ddisgyblion frodyr neu chwiorydd iau, a fydd raid iddyn nhw symud i'r ysgol newydd hefyd, neu a fydden nhw'n aros yn Ysgol Gynradd Dolau? | Pe bai Ysgol Gynradd Dolau yn newid i ysgol cyfrwng Saesneg, ni fyddai'n ysgol dwy iaith mwyach. Mae hyn yn golygu y bydd pob disgybl cyfrwng Cymraeg yn mynd i'r ysgol newydd os yw'r rhieni/gwarcheidwaid yn dewis parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg. |
| 18. | Rydw i'n cytuno â'r syniad newydd oherwydd y tai newydd, a bydd yn dda i'r gymuned. | Wedi'i nodi. |
| 19. | A fyddai unrhyw groesfannau ffordd ar gyfer disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol? | Edrychir ar lwybrau cerdded diogel i'r ysgol i weld beth sydd ei angen. Mae diogelwch yn bwysig. Gallai disgyblion gerdded neu feicio i'r ysgol a bydd storfa feiciau yn yr ysgol newydd. |
| 20. | Faint o'r glo brig fyddwch chi'n ei ddymchwel? Mae llawer o bobl yn ei ddefnyddio. | Wrth i dai newydd gael eu hadeiladu, mae'n debygol y bydd llawer (os nad y cyfan) o'r glo brig yn cael ei ddefnyddio mewn rhyw ffordd gan y datblygiad. Dim ond rhan o hwn fydd yr ysgol yn ei gymryd. |
| 21. | A fyddwch chi'n cael gwared ar y llyn yn y glo brig? | Bydd raid cael gwared ar rai o'r llynnoedd gan y byddan nhw o dan yr ysgol newydd, ond mae yna ardaloedd na fydd yr ysgol newydd yn cyffwrdd â nhw. Rhaid i'r contractwr adeiladu sicrhau ei fod yn gofalu am unrhyw fywyd gwyllt/anifeiliaid sydd yno i'w hamddiffyn rhag y datblygiad. |
| 22. | A fyddwch chi'n dymchwel y cae pêl-droed lleol i osod y tai newydd? | Ein dealltwriaeth ni yw y bydd y tai yn mynd ar y safle glo brig. |
| 23. | A fydd gatiau i ddefnyddio'r cyfleusterau newydd, neu a fyddan nhw ar agor i unrhyw un? | Bydd y cyfleusterau yn cael eu diogelu gan gât, ond mae gan yr ysgol reolaeth dros unrhyw ddefnydd cymunedol. |
| 24. | Mae'r cynlluniau'n sôn am ystlumod ac ymlusgiaid – a fydd ystlumod ar y safle newydd? | Bydd blychau ystlumod, tai draenogod, ayyb, ar y safle newydd. Rydyn ni'n ceisio amddiffyn cymaint o natur â phosibl. |
| 25. | Dylen ni gael rhagor o oleuadau stryd a phalmentydd llyfnach. | Wedi'i nodi. Caiff y sylw ei drosglwyddo i Adran Briffyrdd y Cyngor. |
| 26. | A fydd modd i bobl gerdded trwy'r glo brig i gyrraedd y stiwdios ffilmio? | Mae'n debyg y bydd llawer o'r glo brig yn cael ei ddatblygu dros amser oherwydd y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu. Serch hynny, bydd parciau |

| | | |
|---|---|---|
| | | a chyfleusterau eraill y bydd modd i bobl leol eu defnyddio a'u mwynhau. |
| 27. | Rydw i'n cytuno â'r cynnig oherwydd nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu. Byddai mwy o ddisgyblion yn ymuno ag Ysgol Gynradd Dolau, a byddai'n mynd yn rhy llawn. | Wedi'i nodi. |
| 28. | A oes digon o leoedd mewn ysgolion eraill yn yr ardal gyfagos? | Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i sicrhau bod digon o gapasiti yn ein hysgolion i ddiwallu'r angen/galw. |
| 29. | A fydd graean a chae ar yr iard yn yr ysgol newydd? | Rydyn ni'n ceisio osgoi graean oherwydd gall frifo os byddwch chi'n cwympo. Rydyn ni'n ceisio edrych ar arwynebau eraill a fydd yn caniatáu i ddŵr fynd drwyddo, fel y cae pob tywydd. |
| 30. | A allen ni ddefnyddio'r llwybr newydd rhwng yr ysgol i gerdded i'r ysgol yn lle mynd ar hyd y ffordd? | Gall hyn fod yn anodd gan na fydd yn llwybr cyhoeddus. Bydd yn llwybr troed i'w ddefnyddio yn ystod y diwrnod ysgol. |
| 31. | Mae gwahanu ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg fel gwahanu hufen iâ wedi toddi. Bydd yn gwahanu ffrindiau. | Mae ffrindiau'n bwysig. Rydyn ni'n gobeithio y gall perthynas agos fod rhwng y ddwy ysgol, yn enwedig gyda'r llwybr troed newydd a'r cyfleusterau a rennir. |
| 32. | A fydd ffrâm ddringo tu allan yr ysgol newydd? Mae un yn Ysgol Gynradd Dolau. | Mae modd defnyddio'r llwybr troed i rannu cyfleusterau rhwng y ddau safle. Bydd hwn yn benderfyniad i'r ysgolion ei wneud. |
| 33. | Rydych chi'n gwario £15 miliwn ar yr ysgol newydd – a fydd hyn i gyd yn mynd ar yr ysgol neu a fydd rhywfaint ohono'n cael ei arbed ar gyfer pethau arbennig i'r ysgol (fel disgo'r ysgol ayyb)? | Bydd yr holl £15 miliwn yn mynd ar adeiladu'r ysgol newydd. Mae gan ysgolion eu cyllidebau eu hunain i'w defnyddio ar gyfer pethau fel disgos ysgol. |
| 34. | A fydd yr ysgol newydd yn effeithio ar gyllidebau ysgolion eraill yn Rhondda Cynon Taf? | Bydd y datblygwr tai yn cyfrannu at gost y prosiect, yn ogystal â'r Cyngor a Llywodraeth Cymru. |
| 35. | Rydw i'n argymell meinciau metel ar gyfer yr ysgol newydd gan fod meinciau pren yn mynd yn rhy wlyb. | Rydyn ni'n hoffi defnyddio pethau o'r enw 'meinciau cyfeillion' yn rhai o'n hysgolion newydd, ac mae modd i'r rhain gael eu gwneud o blastig wedi'i ailgylchu. |
| 36. | A fydd noddwr elusen ar gyfer yr adeilad newydd? | Mae'r adeiladwr yn gwneud rhywbeth a elwir yn fuddion cymunedol. Gallai hyn gynnwys cefnogi elusennau lleol, a bydd modd i'r ysgol roi mewnbwn ynghylch beth ddylai'r buddion cymunedol fod. |
| 37. | A fydd raid cael cit pêl-droed/rygbi newydd ar gyfer yr ysgol newydd? | Bydd, mae hyn yn debygol. Bydd modd i'r ysgol newydd benderfynu |

| | | |
|---|---|---|
| | | beth fydd ei gwisg ysgol a'i chitiau chwaraeon. |
| 38. | A fydd unrhyw gymorth i ddisgyblion ag anghenion arbennig? | Bydd, wrth gwrs. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd gyda nhw. |

**4. Sylwadau i Gloi**

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae aelodau Cyngor yr Ysgol wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:00.

**Ymgysylltiad Disgyblion – Ymarfer 'Dweud eich Dweud'**

Yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu â disgyblion Ysgol Gynradd Dolau, rhoddwyd cyfle i bob disgybl 'dweud ei ddweud' drwy ysgrifennu eu sylwadau a'u safbwyntiau mewn perthynas â'r cynnig.

Mae'r sylwadau a'r safbwyntiau o'r ymarfer yma wedi'u cofnodi'n themâu cyffredinol fel y dangosir yn y tabl dilynol, ynghyd â llun sy'n darlunio enghraifft o un o'r ymarferion 'dweud eich dweud'.

| **Sylwadau/themâu disgyblion** | |
|---|---|
| **Sylwadau** | **Nifer o weithiau y nodwyd y sylw** |
| Rydyn ni'n dysgu mwy o Gymraeg Ysgol Gynradd Dolau gan ei bod yn ddwy iaith. | |
| Dylai disgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg ddewis a ydyn nhw'n dymuno gadael. | 2 |
| Cyfeillgarwch wedi chwalu | 8 |
| Gwastraff arian | 4 |
| Ddim yn meddwl y dylai'r ysgol newydd agor – mae'r Gymraeg yn rhan o Ysgol Gynradd Dolau | |
| Pam Ysgol Gynradd Dolau? | |
| Ddim yn deg ar ddisgyblion cyfrwng Cymraeg. | |
| Mae'n syniad gwych! | 2 |
| Os ydyn ni'n hollti, mae gyda ni ragor o gyfleoedd i siarad Cymraeg. | |
| Ni fydd modd i ddisgyblion iau brofi'r profiad ysgol sydd gyda ni. | |
| Dydw i ddim eisiau newid ysgolion! | |

| | |
|---|---|
| Dylai disgyblion cyfrwng Cymraeg ddewis a ydyn nhw am aros a pharhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| Byddai ysgol newydd o fudd i'r ddwy iaith. | |
| Bydd yn wych ar gyfer ysgol Gymraeg newydd/cyfleusterau newydd. | |
| Beth am y bywyd gwyllt/anifeiliaid? | |
| Mae Ysgol Gynradd Dolau yn unigryw gan ei fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg. | |
| Rydw i'n hoffi'r syniad. | |
| Efallai y bydd rhieni/gwarcheidwaid disgyblion cyfrwng Cymraeg eisiau cadw eu plentyn yn Ysgol Gynradd Dolau ac yna fydd y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ddim yn llawn. | |
| Dydw i ddim eisiau cael fy ngorfodi i adael ysgol rydw i'n ei charu. | |
| Mae fy nheulu cyfan wedi mynychu Ysgol Gynradd Dolau. Byddai'n gas gen i'w weld yn newid. | |
| Hoffwn i hynny, gyda'r ieithoedd ar wahân. | |
| Mae Ysgol Gynradd Dolau yn arbennig fel y mae – pam sbwylio ein hysgol. | |

